Annwyl Bawb

E-FWLETIN: 8 RHAGFYR 2008

Dyma ni bellach ynghanol ein digwyddiadau i nodi trigeinfed pen-blwydd y Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol. Cafwyd noson lwyddiannus iawn yr wythnos ddiwethaf pan godwyd dros £300 i Amnest Rhyngwladol a Médecins Sans Frontières; diolch i bawb a gefnogodd y noson naill ai trwy fynychu neu trwy gyfrannu bwyd.

Y **Gig dros Hawliau Dynol** gyda Gruff Rhys, Euros Childs (a Richard James erbyn hyn) a Triattica yw'r digwyddiad nesaf ac mae hwnnw'n cael ei gynnal nos Fercher yma (10 Rhagfyr) – 60 mlynedd i'r diwrnod ers mabwysiadu'r Datganiad, a diwrnod a gydnabyddir yn fyd-eang bellach fel Diwrnod Hawliau Dynol. Mae tocynnau'n £8 (ac ar gael o Morlan yn ystod oriau gwaith, ond yn gwerthu'n gyflym).

Mae rhagflas arddangosfa ***Same Difference*** yma am wythnos a hanner arall ac yna, am 6.00, nos Sul, 11 Ionawr, bydd Cwmni'r Morlan yn cyflwyno ***O Blith fy Mhobl***, cyflwyniad i nodi pen-blwydd y Datganiad yn 60 oed, wedi'i ysgrifennu'n arbennig ar gyfer yr achlysur gan y Parch. Pryderi Llwyd Jones. Mynediad am ddim.

Yn ogystal â dathlu pen-blwydd y ddogfen bwysig hon, ein gobaith yma ym Morlan yw y bydd y digwyddiadau hyn yn codi ymwybyddiaeth o faterion hawliau dynol, a'r ffaith bod yna bobl – yn blant ac yn oedolion, ym Mhrydain a thramor – sy'n dal i fyw heb nifer o'r hawliau sylfaenol hyn. Y mae'r hyn yr ydym wedi ei weld a'i glywed ar y newyddion yn ystod yr wythnos ddiwethaf yn ddigon o brawf o hynny. Pam na ewch i www.everyhumanhasrights.org i ychwanegu eich enw at y miloedd sydd eisoes wedi addo cefnogi'r datganiad.

Yn ystod yr wythnos cyn y Nadolig bydd canlyniad **prosiect celf Nadolig Clwb Ieuenctid y Morlan**, sydd wedi'i seilio ar oleuadau a llusernau, i'w weld y tu allan i'r Ganolfan. Bu aelodau'r Clwb, dan arweiniad Helen Jones, athrawes yn Ysgol Rhydypennau, yn brysur iawn yn gweithio ar y prosiect hwn dros yr wythnosau diwethaf. Braf fydd croesawu Pryderi ac Eirwen Llwyd Jones yn ôl yma ar nos Lun, 15 Rhagfyr i 'lawnsio'r' prosiect yn swyddogol.

Nodir isod gweddill y digwyddiadau sy'n cymryd lle ym Morlan dros yr wythnosau nesaf.

- 2.00-4.00, dydd Iau, 11 Rhagfyr: Sesiwn Nadolig Prifysgol y Drydedd Oes
- 7.30, nos Sul, 14 Rhagfyr: Côr ABC yn cyflwyno *Dilyn y Seren*, yn cynnwys *Atgof o'r Sêr,* Robat Arwyn. Unawdwyr: Helen Medi Williams a Barry Rees. Tocynnau: £10 (pensiynwyr £7, plant £5) ar gael o Gerdd Ystwyth, Dots, Siop Inc neu drwy ffonio 07929-899002. Elw at Eisteddfod yr Urdd 2010, Apêl Aberystwyth a Phenparcau.
- Nos Sadwrn, 10 Ionawr: Noson Gerdd wedi'i threfnu gan Ieuenctid Cymru Lourdes – rhagor o fanylion i ddilyn.

Rhag-hysbys: yr arddangosfa nesaf yn y Morlan fydd ***"Cysgod y Capel"***, sef arddangosfa ddiweddaraf Gareth Owen sy'n adleisio festri capel. Yng ngeiriau'r artist ei hun: "*Mae'r delweddau a welir yn tarddu o fy nghefndir personol, cefndir y 'Pethe'. Mae Cymreictod yn golygu rhywbeth gwahanol i bawb, ond i mi Cymreictod yw'r iaith Gymraeg, yr eisteddfod, barddoniaeth, gwleidyddiaeth heddychol a diwylliannol gyda chysgod y capel dros y cwbwl. Gobeithio fod y delweddau yn trosglwyddo'r teimlad o obaith, adeni ac atgyfodiad. Ni ddaw cyfnod y 'Pethe' fyth yn ôl ar yr union yr un ffurf, ond mae gan ddyn rhyw allu arbennig i ail-ddarganfod ei hun.*"

Bydd yr arddangosfa yma o 19 Ionawr i 28 Chwefror, gyda'r agoriad swyddogol am 7.30, nos Lun, 19 Ionawr ar ffurf seiat sydd, i'r arlunydd, yn *"rhan greiddiol o'r gwaith celf."* Croeso i unrhyw un fynychu.

Os gwyddoch chi am unrhyw rai fyddai â diddordeb mewn cael gwybod am beth sy'n mynd ymlaen ym Morlan, mae pob croeso i chi anfon yr e-fwletin hwn ymlaen atyn nhw.

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-fwletin hwn bellach, rhowch wybod i ni trwy ateb y neges hon ac fe dynnwn eich enw o'r rhestr postio ar unwaith.

Cofion gorau

Carol Jenkins
Rheolwr